OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 283 (Cy. 52)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Glangrwyne, Powys) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mawrth 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Glangrwyne, Powys) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mawrth 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gloch ar 11 Mawrth 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Cydiad-y-Ddwysir hyd at bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ymyl i Dan-y-Gollen a Martell Way yng Nglangrwyne, i'r de-ddwyrain o Grucywel, Powys.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw dda byw fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**8.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mawrth 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru